**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: SF/CS/2272/14
Pob Aelod Cabinet Llywodraeth Leol sydd â chyfrifoldeb am Gynllunio

Prif Weithredwyr Cynghorau Sir
Prif Swyddogion Cynllunio

25 Gorffennaf 2014

Annwyl Gydweithiwr,

Mae'r *Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN 1): Agregau (2004)* yn gwneud paratoi ac adolygu Datganiadau Technegol Rhanbarthol yn ofynnol ym mhob ardal Gweithgor Agregau Rhanbarthol. Cwblhawyd Datganiadau Agregau Rhanbarthol ar gyfer De a Gogledd Cymru yn 2008 a chyhoeddwyd yr adolygiad cyntaf ohonynt ar 25 Gorffennaf 2014.

Diben y llythyr egluro hwn yw cadarnhau ar ba sail y darparwyd fy nghymeradwyaeth o'r Adolygiad Datganiadau Technegol Rhanbarthol (DTRhau) Cyntaf a darparu cymorth ynglŷn â'r dull a fabwysiadwyd yn yr Adolygiad DTRhau Cyntaf mewn perthynas â'r broses ddosrannu yn y DTRhau.

**Cymeradwyaeth Weinidogol o'r Adolygiad DTRhau Cyntaf**
Mae *Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005)* yn datgan y dylai gwaith trawsffiniol, newydd neu'n bodoli eisoes, gael ei integreiddio o fewn y Cynlluniau Datblygu Lleol, ac yn nodi'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol fel mecanwaith ar gyfer sicrhau gwaith trawsffiniol. Disgwyliaf i'r Adolygiad DTRhau Cyntaf barhau i ddarparu sail strategol werthfawr ar gyfer: cynllunio mwynau ar y cyd ar gyfer agregau yng Nghymru; darparu fframwaith cadarn ar gyfer gweithio yn y dyfodol; a goleuo'r modd y paratoir Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd modd hefyd i'r Adolygiad DTRhau Cyntaf fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio perthnasol.

Mae Gweithgorau Agregau Rhanbarthol (GARhau) Gogledd a De Cymru, drwy arfer eu harbenigedd technegol, wedi darparu barn gynghorol ar bob cam yn y broses o lunio'r Adolygiad. Fodd bynnag, ni chymerodd y GARhau eu hunain unrhyw ran mewn cymeradwyo'r hyn a ddeilliodd ohono'n derfynol. Rhoddwyd cymeradwyaeth derfynol i'r Adolygiad DTRhau Cyntaf gennyf i fy hunan a'r awdurdodau lleol, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*    *Printed on 100% recycled paper*

Sail fy nghymeradwyaeth yw fod yr Adolygiad DTRhau Cyntaf yn ganlyniad pwysig i gydweithio a fydd yn hwyluso cyflawni'r polisi cynllunio cenedlaethol a gynhwysir yn y dogfennau *Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000)* ac *MTAN 1: Agregau (2004)*.

**Cyfrifiadau banc tir at ddibenion yr Adolygiad DTRhau Cyntaf**

Yn gyntaf, mae MTAN 1 (paragraff 45) yn datgan y *dylai cynlluniau datblygu gynnwys asesiad o'r banc tir cyfredol a datgan pa nifer o flynyddoedd o echdynnu mwynau y bydd y banc tir yn eu darparu, ar sail ffigurau cynhyrchu'r tair blynedd ddiweddaraf...*
ac y *bydd hyn yn caniatáu cynllunio ymlaen yn synhwyrol ar gyfer echdynnu adnoddau fel y pennir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol...*

Yn ôl MTAN 1, dylid seilio'r cyfrifiad banc tir ar ffigurau'r tair blynedd ddiweddaraf. Mae'r Adolygiad DTRhau Cyntaf wedi defnyddio cyfartaledd 10 mlynedd yn sail ar gyfer gwneud y cyfrifiad banc tir. Dull pragmatig oedd hwn, a ddefnyddiwyd er mwyn osgoi'r risg o dan-ddarparu, a allai fod wedi digwydd be byddid wedi dibynnu ar gyfartaledd cyfnod o 3 blynedd a oedd yn rhychwantu'r dirwasgiad economaidd diweddar.

Mae'r llythyr hwn yn egluro bod defnyddio cyfartaledd 10 mlynedd at ddibenion y cyfrifiad hwn yn briodol, o ystyried yr amgylchiadau economaidd a brofwyd yn y gorffennol agos.

Yn ail, mae MTAN 1 (paragraff 47), mewn perthynas â safleoedd cwsg, yn datgan y dylid eu dangos *yn eglur yn y cyfrifiadau banc tir fel categori ar wahân.*

Mae hon yn frawddeg a allai fod yn agored i wahanol ddeongliadau. Y dehongliad a fabwysiedir yn yr Adolygiad DTRhau Cyntaf yw y caiff cronfeydd agregau wrth gefn mewn safleoedd cwsg eu heithrio o'r cyfrifiadau banc tir, ond y cânt eu rhestru ar wahân.

Yr goblygiad yma yw, pan fo adnoddau wrth gefn o'r fath yn bodoli, mai mater i'r awdurdod cynllunio lleol unigol yw asesu a oes rhagolwg realistig y byddant yn cyfrannu i'r cyflenwad agregau yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan Gynllun Datblygu Lleol yr awdurdod. Os oes, ceir gosod adnoddau wrth gefn o'r fath yn erbyn unrhyw ofyniad a fyddai'n bodoli, fel arall, i wneud dyraniadau newydd. Os yw'n annhebygol y cânt eu gweithio, fodd bynnag, mae hynny'n rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod cynllunio lleol bennu dyraniadau newydd a/neu roi caniatadau newydd i weithio mwynau mewn lleoliadau mwy derbyniol.

Rhaid i'r broses o sefydlu banciau tir fod yn gadarn a thryloyw. Mae'r llythyr hwn yn egluro bod y modd y dehongliad o baragraff 47 a fabwysiedir yn y DTRh yn briodol.

Yn drydydd, mae MTAN 1 (paragraff 49) yn datgan *pan fo banciau tir yn darparu ar gyfer mwy nag 20 mlynedd o echdynnu agregau, na fydd angen dyraniadau newydd*…

Pan ysgrifennwyd MTAN 1 rhagdybid mai 10 mlynedd fyddai cyfnod cynllun. Roedd hyn yn rhagflaenu dyfodiad y Cynlluniau Datblygu Lleol ac nid yw'n adlewyrchu cyfnod Cynllun Datblygu Lleol, sy'n 15 mlynedd. Mae hyn yn golygu hwyrach na ddylid dod i'r casgliad y byddai banc tir o 20 mlynedd neu ragor yn ddigonol i ddarparu'r lleiafswm gofynnol o fanc tir trwy gydol cyfnod y cynllun. Byddai'n ddoeth, felly, peidio â dod i'r casgliad hwnnw oni fydd banc tir o 25 mlynedd neu ragor ar gael.

Mae'r llythyr hwn yn egluro mai'r amgylchiad pan na fydd angen gwneud dyraniadau newydd yw pan fo'r banciau tir eisoes yn darparu ar gyfer 25 mlynedd o echdynnu mwynau.

Yn olaf, rwyf yn ddiolchgar i'ch awdurdod am ymuno yn y gwaith o baratoi a chymeradwyo'r Adolygiad DTRhau Cyntaf. Gellir gweld y dogfennau ar wefannau'r Gweithgorau Agregau Rhanbarthol yn:

http://www.swrawp-wales.org.uk/
http://www.grhgca-cymru.org.uk/

Yr eiddoch yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio